

Allwn ni leihau faint o wrthfotigau a ddefnyddir mewn COPD?

Profion pwynt gofal i dargedu gwrthfotigau ar gyfer gwaethgiadau clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint.



Neges allweddol: Gall prawf gwaed drwy bricio bys mewn meddygfeydd ostwng defnydd diangen o wrthfotigau mewn modd diogel ymhlith cleifion â Chlefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint (COPD).

Pam cynnal astudiaeth PACE?

- Nid heintiau bacteriol sy'n achosi 2/3 o achosion. **Yn aml, nid yw gwrthfotigau yn gwneud lles i gleifion**
- Profi i weld p'un a allai prawf gwaed CRP drwy bricio bys mewn meddygfeydd teulu helpu meddygon teulu i ostwng defnydd o wrthfotigau'n ddiogel ar gyfer achosion o COPD
- Mae protein C-adweithiol (CRP) yn brotein yn y gwaed sy'n cynyddu'n sylweddol pan mae'r corff yn profi heintiau bacteriol difrifol
- Nid yw gwrthfotigau o unrhyw fudd i bobl sy'n cael achos o COPD a lefel CRP isel yn ôl pob tebyg**
- Yr hapdreial rheoledig cyntaf i fynd i'r afael â'r cwestiwn o p'un a allai mesur CRP gyda phrawf pwynt gofal mewn pobl sydd ag AECOPD mewn gofal sylfaenol arwain at ddefnyddio llai o wrthfotigau heb gael effaith negyddol ar gleifion**

Canlyniadau'r astudiaeth

Mae defnyddio prawf CRP drwy bricio bys ar y pwynt gofal yn gostwng y defnydd o wrthfotigau'n ddiogel ar gyfer achosion o COPD.

Gallai gostwng y defnydd o wrthfotigau yn y modd hwn helpu i frwydro yn erbyn ymwrthedd i wrthfotigau.



Cefndir

- Mae pobl sydd â COPD **yn aml yn** profi achosion o'r cyflwr
- Mae symptomau achosion yn cynnwys: **diffyg anadl, peswch a fflem**
- Gall achosion gael eu **sbarduno** gan heintiau bacteriol neu feirysol a ffactorau eraill
- Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n gweld eu meddyg teulu ar ôl cael achos o COPD yn cael gwrthfotigau
- Profi i weld p'un a allai prawf gwaed CRP drwy bricio bys mewn meddygfeydd teulu helpu meddygon teulu i ostwng defnydd o wrthfotigau'n ddiogel ar gyfer achosion o COPD

Prif ganfyddiadau




Roedd 653 o gleifion

gyda COPD wedi cymryd rhan o

86 meddygfa teulu



Yn y 4 wythnos ar ôl yr ymgynghoriad cyntaf:



Gostyngiad o 20%

yn nefnydd gwrthfotigau wrth ddefnyddio'r prawf

Nid oedd y **gostyngiad** o ran defnyddio gwrthfotigau ar draul adferiad gwaeth o'r fflamychiad



Roedd cleifion a meddygon wedi **gwerthfawrogi'r ffaith bod prawf** ar gael yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau



Costau **wedi'u gostwng** heb effeithio'n sylweddol ar gostau eraill ar gyfer meddyginiath COPD na safon bywyd cysylltiedig â gofal iechyd



Roedd yr astudiaeth hon yn waith ar y cyd rhwng Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Rhydychen a Choleg y Brenin, Llundain. Dan arweinyddiaeth y cyd-prif ymchwilyr, yr Athrawon Nick Francis o Brifysgol Caerdydd a'r Athro Chris Butler o Brifysgol Rhydychen. Wedi'i ariannu gan Raglen Asesu Technoleg Iechyd y Sefydliad Ymchwil Iechyd Cenedlaethol. www.pace-study.co.uk



Centre for
Trials Research
Canolfan
Ymchwil Treialon



Division of
Population Medicine
Is-adran Meddygaeth
y Boblogaeth

